

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 14 Medi, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Griffiths (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, O. Griffiths, T.H. Jarvie, R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B.T. Gray a E. Williams.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYFLWYNIAD – MAETHU CYMRU -

ARGYMHELLIR – Y diolchir i swyddogion am eu cyflwyniad cadarnhaol ac addysgiadol.

Rhesymau dros yr argymhellion

Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a gafwyd o ran cydweithrediad Maethu Cymru i gynyddu nifer ac ystod y gofalwyr maeth a recriwtiwyd yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol yn sylweddol.

EITEM AGENDA 5. CAU CARTREFI GOFAL PRESWYL ANNIBYNNOL (CYF) -

ARGYMHELLIR - Y dylid nodi Cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad atodedig.

Rhesymau dros yr argymhellion

Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod a'i fod yn cael cyfle i ystyried y materion a gynhwysir yn adroddiad y Cabinet.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2021/22 (CGC) –

ARGYMHELLIR -

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i sicrhau fodloni ei ofynion o ran perfformiad a amlinellir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan ei fod yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru.

(3) Sicrhau bod aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgor Craffu perthnasol.